

CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2022
20 Mehefin 2022, 7.30 o bell drwy gyfrwng fideo

1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, Bethan Gritten

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Nia Povey

2. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Dim

3. Ymddiheuriadau

Dim

4. Cadarnhau Cofnodion Misol 25 Ebrill 2022

Cynnig: Glyn Griffiths

Eilio: Elin Jones

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Trigolion Garreg Frech

Disgwylir y bydd ADRA yn cyflwyno eu cais cynllunio yn fuan. Unwaith y bydd hynny yn digwydd, cytunwyd y byddai'n briodol cyfarfod ar y safle er mwyn trafod y cais efo trigolion lleol.

Cafwyd ymateb gam Gareth Parri o Gyngor Gwynedd i'n ymholiad am wybodaeth o'r Gofrestr Tai Gyffredin. Dywedodd fod 3,400 o geisiadau am dai ar y gofrestr a bod 36 ohonynt wedi dewis Llanfrothen fel ardal yr hoffent fyw ynddi. Cytunwyd i holi Gareth Parri ymhellach faint o'r 36 oedd wedi dewis Llanfrothen fel eu dewis cyntaf neu eu hunig ddewis.

5.2 13 Garreg Frech

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor AS, y Cynghorydd Craig ap Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo yng Nghyngor Gwynedd a'r Cynghorydd June Jones, er mwyn trefnu cyfarfod safle i drafod 13 Garreg Frech.

5.3 Y Ganolfan

Cytunwyd fod angen cegin newydd yn Y Ganolfan, ac i bwrcasu cegin gan Howdens yn unol â'r amcan bris o £1662.87 dyddiedig 30 Mehefin 2022.

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi cael enwau tri saer i ofyn am bris i osod y gegin.

Mae Nia hefyd am holi am 3 pris ar gyfer paenrtio tu mewn Y Ganolfan.

Yn ogystal, mae sistern y toiled yn gollwng ac fe gytunodd y Cynghorydd Nia Povey a Glyn Griffiths fynd i'r Ganolfan er mwyn gweld beth fedrir ei wneud am hyn.

Trafodwyd hefyd defnyddio'r Ganolfan fel lle i ffoaduriaid o Wcráin gyfarfod, pe byddai ffoaduriaid yn cael eu lleoli yn ardal Llanfrothen, ac roedd pawb yn gytûn i hyn.

5.4 Goryrru Llanfrothen

Paratowyd cynllun lliniaru traffig gan Gyngor Gwynedd ar gyfer canol pentref Llanfrothen.

Cytunwyd i roi copi o'r cynllun yn y siop ac ar y wefan er mwyn ceisio barn trigolion lleol.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod uchafswm cyflymder o 20 m.y.a. mewn nifer o bentrefi drwy Gymru yn y dyfodol agos, gan eu bod yn ymgynghori ar hyn ar hyn o bryd. Os felly, byddai'n ddibwrpas gosod arwydd fflachio 30 m.y.a..

Eglurodd swyddogion Cyngor Gwynedd fod marciau ar ganol y ffordd heb eu hail baentio, gan fod hyn yn dueddol i wneud i yrwyr yrru yn arafach.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ofyn i Arrive Alive osod fan ger Siop a Chaffi Llanfrothen, Cytunwyd hefyd i symud arwydd Llanfrothen yn agosach i'r pentref, a gosod "Gyrrwch yn ddiogel" arno, ond mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r cyngor cymuned dalu am gost hyn.

Eglurodd Cyngor Gwynedd na fyddent yn gosod cyfyngiad cyflymder ar y ffordd allan o Lanfrothen at Tan Lan, nac ychwaith ar y B4410, oherwydd bod hon yn ffordd fawr a ddim yn rhan o'r pentref

6. Materion Ariannol

6.1 Cyflog Clerc Ebrill 2022 £239.72

TWE £59.80

6.2 Cyflog Clerc Mai 2022 £239.72

TWE £59.80

6.3 Anfoneb Dunn & Ellis 28 Ebrill 2022 £59.40

6.4 Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol ac fe gymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2022-22

6.5 Scottish Power, trydan Y Ganolfan, Anfoneb 28 Ebrill 2022, £66.19

6.6 HSBC costau cyfrif hyd at 5 Ebrill a 5 Mai 2022 £16.00

6.7 Derbyn taliad 1af praesept 2022/23 gan Gyngor Gwynedd
£4,650.00

6.8 Balans yn y banc 13 Mehefin 2022 £34,747.45

7. Gohebiaeth

Dim

8. Cynllunio

Dim

9. Materion Eraill

9.1 Cyfethol aelodau newydd

Cytunwyd i gyfethol Siân Cwper yn aelod. Mae hyn yn golygu fod gan y cyngor cymuned 5 aelod, sy'n golygu fod yna dair sedd wag.

Cynnig: Nia Povey

Eilio: Bethan Gritten

9.2 Maes chwarae yn Llanfrothen

Mae aelod o'r cyhoedd wedi danfon i ddweud bod angen cae chwarae o safon ym mhentref Llanfrothen ar gyfer plant y gymuned ac yn holi a fyddai'n bosibl gwella'r cyfleusterau chwarae ar gyfer plant yn Llanfrothen.

Cytunodd y Cynghorydd Beth Garthewin i lunio holiadur yn gofyn am farn trigolion lleol ar

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 Medi 2022

